Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru

Cylch o Gyfarfodydd Adolygu a Herio gyda'r Consortia Rhanbarthol ar gyfer Gwella Ysgolion

Cylch Gorchwyl 2015

1. Cefndir

Mae'r Model Cenedlaethol ar gyfer gwella ysgolion yn nodi trefniadau cyson ar gyfer cyflenwi gwasanaethau gwella ysgolion yn rhanbarthol ledled Cymru.

Yn rhan o'r trefniadau hyn, mae cyfres o gynlluniau busnes cyffredin, un i bob rhanbarth, ar waith sy'n nodi blaenoriaethau allweddol i bob consortiwm am y flwyddyn. Mae'r cynlluniau hyn yn nodi'r canlyniadau disgwyliedig a fydd yn cael eu defnyddio i fesur perfformiad pob consortiwm.

Bydd y Gweinidog Addysg a Sgiliau'n derbyn (neu beidio) y prif gynlluniau busnes yn ffurfiol yn flynyddol. Dylid cwblhau'r broses o gyflwyno a chymeradwyo'r cynllun busnes erbyn diwedd mis Mawrth bob blwyddyn. Er bod cynllun busnes blwyddyn ymhlith gofynion y Model Cenedlaethol, bydd y cynllun a geir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei osod yng nghyd-destun cylch cynllunio tair blynedd ehangach y consortia.

Drwy gylch blynyddol o gyfarfodydd adolygu a herio, bydd Llywodraeth Cymru'n monitro cynnydd mewn perthynas â'r blaenoriaethau a'r canlyniadau a nodwyd yn y cynlluniau busnes, ac yn dal y consortia'n atebol am eu perfformiad mewn perthynas â'r rhain, ac mewn perthynas â'r Model Cenedlaethol a'r blaenoriaethau cenedlaethol y cytunwyd arnynt. Mae darlun o'r cylch blynyddol ar gael yn atodiad 1 (gan fanylu ar ddiben pob cam o'r cylch ym mharagraffau 3, 4 a 5 isod).

Dylid nodi nad arolygiad mo'r cylch adolygu a herio ac nad yw'n disodli gwaith Estyn nag unrhyw asiantaeth arolygu arall.

2. Diben Cyffredinol

Diben y cylch adolygu a herio yw sbarduno gwelliant mewn canlyniadau dysgwyr a bod yn un o'r mecanweithiau cyfathrebu ffurfiol rhwng consortia a Llywodraeth Cymru. Bydd y cyfarfodydd yn bodloni cyfres driphlyg o amcanion – byddant yn herio cynnydd a chanlyniadau, yn rhoi sicrwydd ac yn gyfrwng o nodi arfer y dylid ei rannu ar draws y rhanbarthau:-

- Herio cynnydd consortia mewn perthynas â'r canlynol:

- y mesurau a'r blaenoriaethau canlyniad a nodir yn eu cynlluniau busnes blynyddol;
- rhoi'r Model Cenedlaethol ar waith, a;
- chynnydd mewn perthynas â'r blaenoriaethau a'r targedau cenedlaethol a nodwyd yn 'Cymwys am Oes'.

- Rhoi sicrwydd o ran y canlynol :
  - cynaliadwyedd arferion rhanbarthol gyda ffocws penodol ar wreiddio gwaith ysgol i ysgol;
  - y mecanweithiau atebolrwydd a chraffu sy'n bodoli rhwng pob consortiwm a'i Awdurdod Lleol cyfansoddol;
  - rhoi sicrwydd i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau am bwyllgorau rhanbarthol y consortia ar ansawdd trefniadau rhanbarthol a'r canlyniadau a gyflawnir.

- Adnabod arfer effeithiol i'w rannu.

Bydd y cylch yn broses ddwyffordd a bydd swyddogion yn cymryd camau lle codir materion o ran gweithrediadau'r Adran sydd yn effeithio ar allu'r rhanbarth i weithio'n effeithiol, neu a allai effeithio ar ei allu i wneud hynny.

Bydd y cyfarfodydd adolygu a herio yn hyrwyddo ffocws clir ar ganlyniadau allweddol, a chynnydd mewn perthynas â blaenoriaethau. Bydd dull pedwar cam ar gyfer pob cyfarfod yn creu cylch adolygu a herio amlhaenog gyda phwyslais ar gydweithio. Y bwriad yw sicrhau eglurder o ran atebolrwydd a'r angen i sicrhau gwelliannau.

Y Cylch Adolygu a Herio

3. Diben adolygiad y Gwanwyn

Cynnal adolygiad strategol o'r canlynol:-

- y cynnydd a wnaed o ran gweithredu cynllun busnes rhanbarthol y blynyddoedd blaenorol ac ystyried unrhyw faterion a ddaeth i'r amlwg;
- ystyried yr hunanarfarniad rhanbarthol o ran perfformiad cyfredol;
- ystyried y prif gynllun busnes rhanbarthol ar gyfer y flwyddyn gyfredol;
- yn ôl yr angen, adolygu unrhyw elfennau o'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio Rhanbarthol sydd heb eu cyflawni (e.e. AD, datblygiadau Cymorth i Lywodraethwyr, rheoli perfformiad a Hyfforddiant Ymgynghorwyr Her, a gosod targedau ar gyfer canlyniadau dysgwyr (cynnydd tuag at dargedau eleni);

Canlyniadau a ragwelir

Sicrhau:-

- bod pob consortiwm wedi datblygu a gweithredu proses hunanasesu a chynllunio sy'n gyson ac sydd wedi'i gwreiddio;
- bod y prif gynllun busnes a'r canlyniadau allweddol yn unol â blaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru a'u bod yn cydredeg â disgwyliadau Gweinidogion;
- bod craffu effeithiol yn digwydd i sbarduno a chefnogi gwelliant yng nghanlyniadau'r dysgwyr.

4. Diben adolygiad yr Haf

Cynnal adolygiad strategol o'r canlynol:-

- unrhyw drywyddion ymholi a nodwyd o gynlluniau busnes terfynol y consortiwm;
- rheoli risg;
- ac, ar gyfer haf 2015, ystyried argymhellion cylch gwaith ESTYN a Swyddfa Archwilio Cymru.

Canlyniadau a ragwelir

Sicrhau:-

- bod pob consortiwm wedi adnabod yn effeithiol feysydd i'w datblygu a'u bod wrthi'n mynd i'r afael â'r materion hyn;
- bod y cynlluniau gweithredu manwl ar gyfer meysydd allweddol (a nodwyd ymlaen llaw) yn unol â'r prif gynlluniau busnes ac yn arddangos bod prosesau a rheolaethau cynllunio cryf yn eu lle.

5. Diben adolygiad yr Hydref

Cynnal:-

- adolygiad manwl o berfformiad a chanlyniadau dysgwyr ym mhob cyfnod dysgu allweddol: y Cyfnod Sylfaen; a Chyfnodau Allweddol dau, tri a phedwar;
- asesiad ffurfiol yn unol â'r targedau a amlinellir yng nghynllun busnes y consortiwm a chanlyniadau dysgwyr gwirioneddol/amodol;
- sicrhau bod y consortiwm yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol fel Llythrennedd, Rhifedd a chulhau'r bwlch.

Canlyniadau a ragwelir

Sicrhau:-

- bod y targedau ar gyfer canlyniadau a chyflawniad dysgwyr yng nghynllun busnes y consortiwm wedi'u cyflawni neu y rhagorwyd arnynt;
- bod gwaith yn destun craffu effeithiol er mwyn sbarduno a chefnogi gwelliant yng nghanlyniadau'r dysgwyr.

6. Strwythur

I sefydlu deialog effeithiol, ac adeiladu ar egwyddorion hunanarfarnu effeithiol, bydd y cyfarfodydd adolygu a herio ffurfiol yn canolbwyntio ar faterion o bwysigrwydd strategol. Mae **pedwar cam** i bob un o'r 3 sesiwn adolygu yn y cylch adolygu a herio.

Cam un - Casglu gwybodaeth Llywodraeth Cymru, Estyn, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chyda rhanddeiliaid/partneriaid allweddol. Proses fewnol fydd hon a bydd data'n cael ei rannu wedyn gyda phob consortiwm pan fydd yn briodol er mwyn iddynt ychwanegu ato ar sail eu gwybodaeth a'u hunanarfarniad eu hunain. Caiff hwn ei rannu ar ddiwedd cam un a chyn cam dau. Bydd hwn yn rhoi ffocws i'r trafodaethau yng ngham dau.

Cam dau - Cyn-gyfarfod ar y cyd gyda Rheolwyr Gyfarwyddwyr y pedwar Consortiwm, y pedwar Cyfarwyddwr Arweiniol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru i gadarnhau'r materion penodol i'w trafod yn y cyfarfod adolygu a herio.

Cam tri - Cyfarfod adolygu a herio ffurfiol. Bydd y cyfarfod hwn yn ddeialog adeiladol gyda'r nod o nodi cynnydd a meysydd i'w gwella ar lefel ranbarthol.

Cam pedwar - Cyfarfod ôl-ddigwyddiad a chamau dilynol. Bydd cyfarfod rhwng Llywodraeth Cymru, Rheolwr Gyfarwyddwyr y Consortia a'r Cyfarwyddwr Arweiniol yn fuan ar ôl y cyfarfod ffurfiol. Bydd hwn yn gyfle i roi adborth cychwynnol, cyn ffurfio canlyniadau a chamau gweithredu ffurfiol.

7. Aelodaeth

Bydd gofyn i wahanol bobl fynychu pob un o gamau'r digwyddiad.

Cam un. Sesiwn casglu gwybodaeth
(Mewnol i Lywodraeth Cymru)

- **Cadeirydd - Dr Brett Pugh**, Cyfarwyddwr Grŵp, Safonau a Gweithlu Ysgolion
- Swyddogion Llywodraeth Cymru ac aelodau tîm secondai arbenigol
- Cynrychiolwyr Estyn gyda rôl sylwedydd
- Un cynrychiolydd o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gyda rôl sylwedydd

Cam dau. Cyn-gyfarfod ar y cyd

- Swyddogion Llywodraeth Cymru ac aelodau tîm secondai arbenigol addysgol
- Rheolwr Gyfarwyddwyr y Pedwar Consortiwm Rhanbarthol
- Y Pedwar Cyfarwyddwr Arweiniol Addysg Rhanbarthol
- Y Pedwar Prif Weithredwr Arweiniol
- Un cynrychiolydd o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gyda rôl sylwedydd

Cam tri. Cyfarfod adolygu a herio. (bydd y sawl sy'n bresennol yn amrywio yn ôl y pwynt yn y cylch, Gwanwyn/Haf/Hydref)

Y Gwanwyn:-

- Cadeirydd - Dr Brett Pugh, Cyfarwyddwr Grŵp, Safonau a Gweithlu Ysgolion
- Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr Grŵp, Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr
- Steve Vincent, Dirprwy Gyfarwyddwr, Rheoli ac Effeithiolrwydd Ysgolion
- Rheolwr Gyfarwyddwr Consortiwm
- Rheolwr Gyfarwyddwr Cynorthwyol Consortiwm
- Cyfarwyddwr Arweiniol
- Cadeirydd y Cydbwyllgor
- Prif Weithredwr Arweiniol

- Cadeirydd y Bwrdd Cynghori
- Un cynrychiolydd Estyn gyda rôl sylwedydd.
- Un cynrychiolydd o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gyda rôl sylwedydd.
- Secondai Arbenigol
- Ysgrifenyddiaeth

Yr Haf:-

- Cadeirydd - Dr Brett Pugh, Cyfarwyddwr Grŵp, Safonau a Gweithlu Ysgolion
- Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr Grŵp, Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr
- Steve Vincent, Dirprwy Gyfarwyddwr, Rheoli ac Effeithiolrwydd Ysgolion
- Rheolwr Gyfarwyddwr Consortiwm
- Rheolwr Gyfarwyddwr Cynorthwyol Consortiwm
- Cyfarwyddwr Arweiniol
- Cadeirydd y Cydbwyllgor
- Prif Weithredwr Arweiniol
- Cadeirydd y Bwrdd Cynghori
- Un cynrychiolydd Estyn gyda rôl sylwedydd
- Un cynrychiolydd o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gyda rôl sylwedydd
- Secondai arbenigol
- Ysgrifenyddion
- *Cyfarwyddwyr Addysg Awdurdod Lleol ychwanegol os yw'r agenda y cytunwyd arno'n amlygu mater i'w drafod o ran ALlau unigol neu'r holl ALlau (cytunir ar hyn yn y cyn-gyfarfod yng ngham 2)

Yr Hydref:-

- Cadeirydd – Huw Lewis y Gweinidog Addysg a Sgiliau
- Dr Brett Pugh, Cyfarwyddwr Grŵp, Safonau a Gweithlu Ysgolion
- Jo-Anne Daniels**,** Cyfarwyddwr Grŵp, Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr
- Steve Vincent, Dirprwy Gyfarwyddwr, Rheoli ac Effeithiolrwydd Ysgolion
- Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol Rhanbarthol (tybir ei fod yn aelod o'r Cydbwyllgor Rhanbarthol).
- Rheolwr Gyfarwyddwr Consortiwm
- Rheolwr Gyfarwyddwr Cynorthwyol Consortiwm
- Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol Rhanbarthol
- Cyfarwyddwyr Addysg Awdurdod Lleol fel sy'n briodol (bydd hyn yn cael ei gytuno yn y cyn-gyfarfod yng ngham 2)

- Secondai Arbenigol
- Un cynrychiolydd Estyn gyda rôl sylwedydd.
- Un cynrychiolydd o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gyda rôl sylwedydd
- Ysgrifenyddion

Cam pedwar. Cyfarfod ôl-ddigwyddiad

- Swyddogion Llywodraeth Cymru a secondai/secondeion arbenigol
- Rheolwr Gyfarwyddwr a Chyfarwyddwr Arweiniol Consortiwm
- Prif Weithredwr Arweiniol

8. Trefniadau cyfarfod

Amlder

Bydd tri chyfarfod adolygu a herio bob blwyddyn. Cynhelir y rhain yn y Gwanwyn, yr Haf a'r Hydref. Bydd un o'r cyfarfodydd adolygu a herio bob blwyddyn yn cael ei gadeirio gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Rhagwelir mai cyfarfod tymor yr hydref fydd hwn o hyd ar gyfer 2015.

Agenda a gwybodaeth ategol

Bydd cyfres o agendâu a osodwyd i bob un o'r cyfarfodydd wedi'u cytuno ymlaen llaw â'r consortia a'u cysoni â'r cynlluniau busnes rhanbarthol.

I gefnogi'r cyfarfodydd bydd set gyffredin o wybodaeth yn cael ei llunio ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru, Estyn a'r consortia. Cytunir ar hyn mewn cysylltiad â chynnwys yr agenda.

Trefniadau'r cyfarfod adolygu a herio ffurfiol (Cam tri)

Ar ôl y cyn-gyfarfod ar y cyd (cam dau), bydd Llywodraeth Cymru'n rhannu'r trywyddion ymholi sy'n dod i'r amlwg gyda'r consortiwm, a hynny wyth diwrnod gwaith cyn y cyfarfod adolygu a herio. Bydd hyn yn cynnwys pob cyflwyniad yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Bydd y consortia'n gosod trefniadau ymarferol yn eu lle i'r cyfarfod adolygu a herio ffurfiol, gan gynnwys cyfleusterau cyfieithu ar y pryd yn ôl y gofyn. Bydd Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am wneud cofnod ffurfiol o'r cyfarfod.

9. Adrodd

Bydd blaenoriaethau a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt o ganlyniad i'r sesiynau adolygu a herio yn cael eu rhoi ar waith gan gonsortia ac awdurdodau lleol fel sy'n briodol a'u hadlewyrchu yn y cynlluniau busnes am y 12 mis nesaf. Bydd y gwaith o gymryd y camau hyn yn cael ei gefnogi gan ddeialog parhaus â'r Secondai Arbenigol a swyddogion Llywodraeth Cymru.

Bydd datganiad yn amlinellu'r canlyniadau, y materion a'r risgiau allweddol i bob rhanbarth yn cael ei baratoi cyn pen pum diwrnod gwaith o'r digwyddiad adolygu a herio ffurfiol terfynol. Cyflwynir hwn wedyn i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau.

10. Adolygiad

Bydd y cylch gorchwyl hwn yn cael ei adolygu ym mis Mawrth 2016, yr un pryd â'r adolygiad o'r cylch adolygu cyffredinol a chymeradwyo Cynlluniau Busnes Rhanbarthol ar gyfer 2015/16.

Cylch Adolygu a Herio 2015